**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

31 Mawrth 2023

Annwyl Julie

Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mae dyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd (WHP) ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd o ddiddordeb mawr i'n Pwyllgor ac i'r rhanddeiliaid yr ydym yn ymgysylltu â hwy.

Mae'r argyfwng costau byw a waethygir gan gynnydd mwyfwy mewn biliau cynhesu tai â goblygiadau ar gyfer cyllid aelwydydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu ar frys i insiwleiddio cynifer o gartrefi â phosibl cyn y gaeaf nesaf. Daeth y rhaglen Arbed i ben ym mis Tachwedd 2021 ac mae cynllun Nyth i ddod i ben ddiwedd y mis hwn. Felly rydym yn ei chael hi'n anodd deall sut yr ydych yn bwriadu sicrhau nad oes dim bwlch yn y ddarpariaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Rydym yn bryderus iawn ynghylch y diffyg eglurder parhaus ynghylch dyfodol y cynllun a'r methiant i osod amserlen glir ar gyfer y cynllun olynol.

Felly, byddwn yn croesawu cael ymateb i'r canlynol:

- Pryd fydd y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf yn dechrau? Beth yw'r dyddiad cychwyn disgwyliedig?

- Pryd fydd cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn dod i ben? A yw Nyth wedi'i ymestyn y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen gwreiddiol, sef mis Mawrth 2023?

- A fydd bwlch yn y cymorth a ddarperir ar gyfer effeithlonrwydd ynni i aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd? Sut y byddwch yn lliniaru effaith y bwlch hwn dros fisoedd yr haf?

- Pryd y byddwch yn cyhoeddi’r cynllun gweithredu tlodi tanwydd diwygiedig, (roedd eich ymateb i argymhelliad 2 yn ein hadroddiad yn nodi “yn 2023”)?

- Yn ystod y Datganiad Busnes ar 21 Mawrth 2023 cadarnhaodd y Trefnydd y byddech yn cyflwyno datganiad ar y cynllun “cyn diwedd tymor yr haf”. A fydd y datganiad hwn yn cynnwys manylion terfynol yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys arwydd clir o ba mor fuan y gellir rhoi’r cynllun ar waith? Os nad ydyw, a allwn gael dyddiad pendant ar gyfer cyflwyno rheoliadau i greu iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?

Er bod y gwaethaf o’r tywydd oer yn y gorffennol o ran gaeaf 2022-23, mae’r rhagolygon ar gyfer llawer o aelwydydd yn parhau i fod yn heriol. Mae’n hanfodol ein bod mewn sefyllfa i helpu i gefnogi cynifer o aelwydydd â phosibl gyda mesurau effeithlonrwydd ynni yn y misoedd nesaf, cyn y gaeaf nesaf. Felly, rydym yn eich annog i egluro bwriadau Llywodraeth Cymru yn hynny o beth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dechrau tymor yr haf, sef 24 Ebrill 2023. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ac at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol